Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2021.

Rwyf wedi gwneud y datganiadau sy'n ofynnol gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020. Mae'r datganiadau i'w gweld yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm hwn.

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
10 Rhagfyr 2021

RHAN 1

1. Disgrifiad

Yn dilyn ymadawiad y DU â'r Farchnad Sengl ac Undeb Tollau'r UE, mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn nodi'r sail ar gyfer masnachu gwin rhwng Prydain Fawr a'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 mewn perthynas â darpariaethau trosiannol a geir yn Atodiad 15 o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu sy'n berthnasol i labelu a rhoi gwin ar y farchnad.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae'r offeryn yn cael ei wneud gan ddefnyddio pwerau a roddir gan adran 31(1) (a) a pharagraff 27 o Atodlen 5 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020.

Cyflwynwyd yr offeryn hwn at ddiben ei sifftio gerbron pwyllgor o Senedd Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A.

Ar 06 Rhagfyr 2021, cytunodd y Pwyllgor Sifftio mai'r weithdrefn briodol ar gyfer yr offeryn hwn yw'r offeryn penderfyniad negyddol.

cr-ld14722-w.pdf (senedd.cymru)

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae'r offeryn yn cael ei wneud gan ddefnyddio pwerau a roddir gan adran 31(1) (a) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020 a pharagraff 27 o Atodlen 5 iddi ac yn unol â pharagraff 6(2) a 9 o Atodlen 5 i'r Ddeddf yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Senedd drwy weithdrefn penderfyniad negyddol. Yn unol â pharagraff 9(3) o Atodlen 5, mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud datganiad yn cadarnhau bod y weithdrefn penderfyniad negyddol yn briodol ac wedi gosod copi o'r offeryn drafft a'r memorandwm esboniadol drafft, gan gynnwys eu rhesymau dros eu dewis o weithdrefn, gerbron y Senedd.

Mae Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 yn gorfodi, mewn perthynas â Chymru, ddarpariaethau Rheoliad (EU) Rhif 1169/2011 ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr, gan gynnwys gwybodaeth a ddarperir drwy labelu bwyd. Yn benodol, maent yn darparu y caiff awdurdod gorfodi, os bydd toriad, ddyroddi hysbysiad gwella o dan adran 12 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

Mae Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio) (Cymru) 2021 yn darparu rhyddhad trosiannol rhag camau gorfodi mewn perthynas â gwin a gynhyrchir, a ddisgrifir ac a labelwyd cyn dyddiad dod i rym y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae angen diwygio'r ddeddfwriaeth ddomestig hon yng Nghymru, mewn ymateb i ddiwygiadau a wnaed o dan Reoliadau Gwin (Diwygio) Llywodraeth y DU 2021.

Gan fod OS Llywodraeth y DU yn gwneud diwygiadau ar gyfer y DU gyfan, dim ond mân ddiwygiad sydd angen i Gymru ei wneud i Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014.

Diben Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2021 a’r effaith y bwriedir iddynt eu cael yw darparu rhyddhad trosiannol rhag camau gorfodi mewn perthynas â gwin a gynhyrchir, a ddisgrifir ac a labelir cyn dyddiad dod i rym y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Beth wnaeth unrhyw gyfraith cyn y newidiadau sydd i’w gwneud gan yr offeryn hwn?

Roedd y Rheoliadau'n gorfodi darpariaethau penodol o Reoliad (EU) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 25 Hydref 2011 ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr. Mae Rheoliad (EU) Rhif 1169/2011 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr, gan gynnwys arferion gwybodaeth teg i sicrhau nad yw defnyddwyr yn cael eu camarwain gan ddeunydd pecynnu bwyd.

Pam mae'n cael ei newid?

Mae angen diwygio'r ddeddfwriaeth ddomestig hon yng Nghymru, mewn ymateb i ddiwygiadau a wnaed o dan Reoliadau Gwin (Diwygio) 2021 Llywodraeth y DU.

Beth fydd yn ei gwneud yn awr?

Mae diwygiadau i Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 yn gwneud rhyddhad trosiannol rhag camau gorfodi mewn perthynas â gwin a gynhyrchir cyn i'r gofynion labelu a marchnata newydd yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ddod i rym.

5. Ymgynghori

Cynhaliwyd ymgynghoriad 3 wythnos ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban ar y cynigion deddfwriaethol fel rhan o Reoliadau Gwin (Diwygio) 2021 Llywodraeth y DU.

Rhoddwyd yr ymgynghoriad ar wefan GOV.UK a thynnwyd sylw ato ymhlith rhanddeiliaid allweddol yn y fasnach win, y Gymdeithas Masnach Gwin a Gwirodydd

(WSTA) a Gwinoedd Prydain Fawr (WineGB), yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Safonau Bwyd yr Alban.

Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol iawn i'r cynigion, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â dileu ardystiad mewnforio gwin (dogfennau VI-1). Roedd y fasnach win, ac yn enwedig y fasnach win o ansawdd da sy'n mewnforio cyflenwadau llai, yn ystyried y byddai dileu'r gofynion VI-1 yn lleihau costau ac yn cyflymu masnach.

Mynegwyd pryderon y byddai dileu ardystiad mewnforio yn lleihau cost alcohol - gan arwain at fwy o risg o niwed, a bod rhwystrau ardystio yn dal i fodoli o ran masnachu gwin gydag Aelod-wladwriaethau'r UE. Roedd rhanddeiliaid yn dymuno i'r Llywodraeth gefnogi camau i leihau neu ddileu'r rhwystrau hyn.

Prin oedd y safbwyntiau a fynegwyd ar drefniadau ynghylch marcio lotiau gwinoedd, gyda sylwadau'n nodi na fyddai'n effeithio'n negyddol ar fusnes.

Roedd sylwadau ar drefniadau'r cyfnod pontio yn canolbwyntio ar yr amser y dylid darparu ar ei gyfer. Fodd bynnag, cytunodd y rhan fwyaf y byddai cyfnod pontio o 2 flynedd i gyfanwerthwyr a chynhyrchwyr yn ddigon o amser i fusnesau addasu.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Ystyriwyd nad oedd angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol, o ystyried bod y ddeddfwriaeth yn ymwneud â diwygiadau ffeithiol sy'n cael eu gwneud i ddiweddaru is-ddeddfwriaeth ac nad ydynt yn newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd arwyddocaol na sut y caiff ei chymhwyso mewn sefyllfa benodol.

Atodiad 1

Datganiadau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020

Rhan 1

Tabl o Ddatganiadau o dan Ddeddf 2020

Mae'r tabl hwn yn nodi'r datganiad y gall fod ei angen ar Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 2020. Mae'r datganiadau gofynnol i'w gweld yn Rhan 2 o'r atodiad hwn.

Datganiad	**Lle mae'r gofyniad**	**I bwy y mae'n berthnasol**	**Yr hyn sy'n ofynnol ganddo**
Sifftio	Paragraffau 9(3), Atodlen 5 Rheol Sefydlog 27.1AA	Gweinidogion Cymru wrth arfer pwerau ym Mharagraff 9 o Atodlen 5 i wneud OS Negyddol	Datganiad i esbonio pam y dylai'r offeryn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ac, os yw'n berthnasol, pam mae'n anghytuno ag argymhelliad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (fel y pwyllgor sifftio)

Rhan 2

Datganiadau sy'n ofynnol wrth ddefnyddio pwerau galluogi o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020

1. Datganiad(au) sifftio

Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020:

“Yn fy marn i, dylai Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2021 fod yn ddarostyngedig i’w dirymu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru. (h.y. y weithdrefn negyddol).

Y rheswm dros hyn yw bod y newidiadau yn rhai mân a thechnegol eu natur.”